TGAU

# CBAC TGAU
# Celf a Dylunio

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Manyleb

Addysgu o 2025
Dyfarnu o 2027



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TGAU Gwneud i Gymru sy'n nodi'r gofynion ar gyfer unrhyw gymhwyster TGAU newydd a gymeradwywyd i'w addysgu gyntaf o fis Medi 2025 a thu hwnt.
- Amodau Cydnabod Safonol sy'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru.
- Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Celf a Dylunio sy'n nodi'r gofynion pwnc penodol ar gyfer cymwysterau TGAU Celf a Dylunio o fis Medi 2025 a thu hwnt.

© WJEC CBAC Ltd 2024

## CYNNWYS

TGAU CELF A DYLUNIO ........ 4
CRYNODEB O'R ASESU ........ 4
1 CYFLWYNIAD ........ 5
1.1 Nodau ........ 5
1.2 Cwricwlwm i Gymru ........ 5
1.3 Dysgu blaenorol a dilyniant ........ 12
1.4 Oriau dysgu dan arweiniad ........ 12
1.5 Defnyddio iaith ........ 12
1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg ........ 12
2 CYNNWYS Y PWNC ........ 13
Sut i ddarllen yr ymhelaethiad ........ 13
Uned 1 ........ 15
Uned 2 ........ 16
Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu ........ 17
3 ASESU ........ 18
3.1 Amcanion asesu a phwysoli ........ 18
3.2 Trosolwg o'r trefniadau ar gyfer asesu di-arholiad ........ 19
4 CAMYMDDWYN ........ 21
5 GWYBODAETH DECHNEGOL ........ 22
5.1 Cofrestru ........ 22
5.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl ........ 22
Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ........ 23

© WJEC CBAC Ltd 2024

# TGAU CELF A DYLUNIO

## CRYNODEB O'R ASESU

| |
|---|
| **Uned 1: Portffolio**<br>Asesiad Di-arholiad<br>**60% o'r cymhwyster** **120 marc** |
| Bydd y gwaith sy'n cael ei gyflawni o fewn yr uned yn cael ei osod yn fewnol, yn cael ei farcio gan y ganolfan ac yn cael ei gymedroli gan CBAC. |
| **Uned 2: Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol**<br>10 awr o waith dwys a manwl, ynghyd ag astudiaeth baratoadol<br>Asesiad di-arholiad<br>**40% o'r cymhwyster** **80 marc** |
| CBAC fydd yn gosod yr aseiniad wedi'i osod yn allanol, i'w farcio gan y canolfannau a'i gymedroli gan CBAC. |

Cymhwyster llinol yw hwn.

Nid yw'n cynnwys haenau.

Bydd yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol yn cael ei ryddhau i ganolfannau yn nhymor yr hydref (mis Rhagfyr) pob cyfres. Bydd yn cael ei ryddhau am y tro cyntaf yn nhymor yr hydref (Rhagfyr) 2026.

UNED 1: Rhaid cwblhau'r portffolio cyn cyflwyno Uned 2: Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol i ddysgwyr.

Bydd y cymhwyster yn cael ei ddyfarnu gyntaf yn haf 2027.

Rhif Cymeradwyo'r Cymhwyster: C00/4967/0

© WJEC CBAC Ltd 2024

# TGAU CELF A DYLUNIO

## 1 CYFLWYNIAD

### 1.1 Nodau

Rhaid i'r cymhwyster TGAU Celf a Dylunio gefnogi dysgwyr i:

- archwilio a gwerthfawrogi gwaith celf, dylunio a chrefft creadigol pobl eraill, datblygu eu doniau creadigol eu hunain, a chefnogi chwilfrydedd ymchwiliol
- datblygu gwybodaeth, gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o sut mae ystyr yn cael ei gyfleu mewn celf, dylunio a chrefft
- ennill dealltwriaeth o amrywiaeth o arferion a chyd-destunau mewn celf, dylunio a chrefft, gan adlewyrchu eu diddordebau a'u dyheadau
- ymateb i waith celf, dylunio a chrefft a grëwyd gan bobl eraill a myfyrio arno, gan gymhwyso gwybodaeth am y cyd-destun i werthuso effeithiolrwydd syniadau a thechnegau a ddefnyddir i gyfleu ystyr
- datblygu sgiliau creadigol trwy arbrofi ac ymchwilio i gynllunio, dyfeisio a dylunio delweddau, arteffactau a chynhyrchion gyda phwrpas a bwriad, gan adnabod cyfleoedd i wireddu dyheadau
- datblygu sgiliau ymarferol a thechnegol, gan gyfleu bwriad artistig yn bwrpasol a gyda soffistigeiddrwydd a rheolaeth gynyddol
- mireinio, gwerthuso a myfyrio ar eu gwaith eu hunain
- archwilio themâu trawsbynciol hawliau dynol ac amrywiaeth, gan gynnwys safbwyntiau, hunaniaeth, diwylliant a chyfraniadau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol

Mae Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru yn nodi'r nodau hyn.

### 1.2 Cwricwlwm i Gymru

Fframwaith Cwricwlwm i Gymru yw sail y cymhwyster TGAU Celf a Dylunio hwn. Cafodd ei lunio er mwyn sicrhau y gall dysgwyr barhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben gan astudio ar gyfer y cymhwyster hwn ar yr un pryd. Yn ganolog i hyn mae'r egwyddorion cynnydd, yn ogystal â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r sgiliau a chysyniadau pwnc-benodol a amlinellir yn rhan 'Cynllunio eich Cwricwlwm' Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol.

Wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn, ystyriwyd lle byddai cyfleoedd i ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd yn ogystal â chyfleoedd i feithrin sgiliau cyfannol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae mapio syml i'w weld yn Atodiad A, a bydd y Canllawiau Addysgu yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi athrawon.

Ystyriwyd hefyd lle gall y cymhwyster greu cyfleoedd i integreiddio'r profiadau dysgu a nodwyd ar dudalen 17; bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

© WJEC CBAC Ltd 2024

Mae'r cymhwyster TGAU Celf a Dylunio yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy:

- cefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig[1], gan roi cyfle i'r dysgwyr:
  - datblygu sgiliau a gwybodaeth artistig
  - ymateb a myfyrio fel artist ac fel cynulleidfa
  - datblygu eu hunaniaeth artistig eu hunain drwy arloesi a bod yn feiddgar.

- cefnogi egwyddorion cynnydd[2] drwy roi cyfle i ddysgwyr:
  - gysylltu â'r broses greadigol wrth archwilio ac arloesi
  - creu gwaith mwy soffistigedig
  - mireinio sgiliau a thechnegau
  - magu hyder a gwydnwch wrth roi a derbyn adborth.

- cefnogi ystyriaethau allweddol Celf a Dylunio[3] drwy roi cyfle i ddysgwyr:
  - arbrofi a datblygu gwaith drwy amrywiaeth o adnoddau, defnyddiau, technegau a phrosesau
  - cynhyrchu amrywiaeth o ganlyniadau a dangos ymateb personol a chreadigol.

[1] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-celfyddydau-mynegiannol/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig/
[2] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-celfyddydau-mynegiannol/egwyddorion-cynnydd/
[3] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-celfyddydau-mynegiannol/cynllunio-eich-cwricwlwm/#ystyriaethau-sy’n-benodol-i-ddisgyblaethau

© WJEC CBAC Ltd 2024

## Llwybrau

Dyma'r llwybrau sydd ar gael ar gyfer y cymhwyster TGAU Celf a Dylunio:

- Celf, crefft a dylunio
- Celfyddyd gain
- Cyfathrebu graffig
- Dylunio tecstilau
- Dylunio tri dimensiwn
- Ffotograffiaeth

Rhaid i ddysgwyr ddewis llwybr. Rhaid dilyn cynnwys y pwnc yn 1.1 ac 1.2 ar gyfer pob llwybr.

| **Celf, crefft a dylunio** |
|---|
| Mae'r llwybr celf, crefft a dylunio wedi'i lunio i hyrwyddo dysgu ar draws amrywiaeth o brofiadau. Gall hyn gynnwys defnyddio ystod eang o gyfryngau, technegau, offer, prosesau a thechnolegau digidol sy'n addas i fwriadau a gofynion dysgwyr, er mwyn creu arteffactau a chynhyrchu tystiolaeth amrywiol o'r broses greadigol, dulliau gweithio a chanlyniadau.<br><br>Ar gyfer y llwybr hwn, mae'r pwyslais ar ddull gweithredu mwy eang sy'n gymesur o ran galw â dyfnder y dysgu sydd ei angen yn y llwybrau mwy arbenigol. Mae'r teitl Celf, Crefft a Dylunio yn cynnig cyfle i archwilio a chreu ar draws llwybrau. |
| Gall dysgwyr sy'n ymgymryd â'r llwybr hwn ddilyn meysydd astudio o'r llwybrau canlynol:<br><br>• Celfyddyd gain<br>• Cyfathrebu graffig<br>• Dylunio tecstilau<br>• Dylunio tri dimensiwn<br>• Ffotograffiaeth.<br><br>Ni chyfyngir y gwaith i un o'r uchod.<br><br>Rhaid i ddysgwyr sy’n ymgymryd â’r llwybr hwn archwilio ffynonellau beirniadol a chyd-destunol perthnasol ac ymarferol, megis gwaith artistiaid hanesyddol a chyfoes a'r gwahanol bwrpasau, bwriadau a swyddogaethau fel y bo’n briodol i’w deilliannau eu hunain. Dylent ddangos y gallu i weithio’n greadigol gyda phrosesau a thechnegau sy’n briodol i’r maes/meysydd astudio o’u dewis. |

© WJEC CBAC Ltd 2024

| **Celfyddyd gain** |
| --- |
| Mae'r llwybr celfyddyd gain yn ymwneud â'r agwedd honno ar gelf, crefft a dylunio lle mae gwaith yn cael ei ddatblygu'n bennaf at bwrpasau esthetig, deallusol neu gysyniadol yn hytrach na rhai gweithredol ac ymarferol. Mae'r llwybr hwn yn cynnig dewis o gyfryngau a phrosesau traddodiadol a digidol ac mae'n cynnwys defnydd mynegiannol o ystod eang o ddeunyddiau, technegau a sgiliau. |
| Gall dysgwyr sy'n ymgymryd â'r llwybr hwn ddilyn y meysydd astudio canlynol:<br><br>• Lluniadu<br>• Gosodwaith<br>• Cyfryngau seiliedig ar lens<br>• Cyfryngau cymysg<br>• Peintio<br>• Argraffu<br>• Cerflunwaith<br>• Tecstilau celfyddyd gain.<br><br>Ni chyfyngir y gwaith i un maes astudio.<br><br>Rhaid i ddysgwyr sy'n ymgymryd â'r llwybr hwn archwilio ffynonellau beirniadol a chyd-destunol perthnasol ac ymarferol, megis gwaith artistiaid cain hanesyddol a chyfoes a gwahanol ddibenion, bwriadau a swyddogaethau celfyddyd gain fel y bo'n briodol i'w deilliannau eu hunain. Dylent ddangos y gallu i weithio'n greadigol gyda phrosesau a thechnegau sy'n briodol i'r maes/meysydd astudio o'u dewis. |

| **Cyfathrebu graffig** |
| --- |
| Diffinnir y llwybr cyfathrebu graffig fel y broses o greu deunydd gweledol i gyfleu gwybodaeth, syniadau ac emosiynau gan ddefnyddio elfennau graffig i gynulleidfa darged. Mae'r llwybr hwn yn cwmpasu maes astudio eang a datblygol, gan ymgorffori amrywiaeth o ddisgyblaethau cysylltiedig a defnyddio sgiliau traddodiadol ochr yn ochr â thechnolegau digidol blaengar sy'n addas ar gyfer maes dylunio masnachol dylunio graffig. |
| Gall dysgwyr sy'n ymgymryd â'r llwybr hwn ddilyn y meysydd astudio canlynol:<br><br>• Hysbysebu a brandio<br>• Dylunio gwybodaeth<br>• Celfyddyd gysyniadol<br>• Darlunio<br>• Cyfryngau rhyngweithiol<br>• Graffeg symudol<br>• Dylunio pecynnau<br>• Teipograffeg.<br><br>Ni chyfyngir y gwaith i un maes astudio.<br><br>Rhaid i ddysgwyr sy'n ymgymryd â'r llwybr hwn archwilio ffynonellau beirniadol a chyd-destunol perthnasol ac ymarferol, megis gwaith dylunwyr graffig hanesyddol a chyfoes a gwahanol bwrpasau, bwriadau a swyddogaethau cyfathrebu graffig fel y bo'n briodol i'w deilliannau eu hunain. Dylent ddangos y gallu i weithio'n greadigol gyda phrosesau a thechnegau sy'n briodol i'r maes/meysydd astudio o'u dewis. |

© WJEC CBAC Ltd 2024

| **Dylunio tecstilau** |
|---|
| Diffinnir y llwybr dylunio tecstilau fel creu dyluniadau a chynhyrchion ar gyfer ffabrigau wedi'u gwehyddu, eu gwau, eu pwytho neu eu printio ac mae gofyn cael dealltwriaeth o ffibrau, edafedd a ffabrigau. Mae Dylunio Tecstilau yn cwmpasu ystod eang o ddeunyddiau, technegau a phrosesau, gan gynnwys deunyddiau a phrosesau cynaliadwy yn ogystal â thechnolegau newydd. |
| Gall dysgwyr sy'n ymgymryd â'r llwybr hwn ddilyn y meysydd astudio canlynol:<br><br>• Tecstilau wedi'u hadeiladu<br>• Tecstilau digidol<br>• Ffabrigau wedi'u llifo<br>• Dylunio ffasiwn<br>• Tecstilau wedi'u gosod<br>• Dylunio print arwyneb<br>• Dodrefn meddal<br>• Tecstilau wedi'u brodio a/neu wedi'u haddurno.<br><br>Ni chyfyngir y gwaith i un maes astudio.<br><br>Rhaid i ddysgwyr sy'n ymgymryd â'r llwybr hwn archwilio ffynonellau beirniadol a chyd-destunol perthnasol ac ymarferol, megis gwaith dylunwyr a gwneuthurwyr tecstilau hanesyddol a chyfoes, yn ogystal â gwahanol bwrpasau, bwriadau a swyddogaethau dylunio tecstilau fel y bo'n briodol i'w deilliannau eu hunain. Dylent ddangos y gallu i weithio'n greadigol gyda phrosesau a thechnegau sy'n briodol i'r maes/meysydd astudio o'u dewis. |

© WJEC CBAC Ltd 2024

| **Dylunio tri dimensiwn** |
| --- |
| Diffinnir y llwybr dylunio tri dimensiwn fel dylunio, prototeipio, a modelu neu wneud gwrthrychau, amgylcheddau a chynhyrchion traul sy'n swyddogaethol ac esthetig yn bennaf. Dylai dysgwyr amlygu'r gallu i weithio'n greadigol â phrosesau, technegau a defnyddiau, gan gynnwys rhai cynaliadwy, sy'n briodol i'r maes astudio o'u dewis, er enghraifft: dylunio drwy gymorth cyfrifiadur; gwneud modelau; prototeipio; adeiladu a chydosod. Mae'n hanfodol cael dealltwriaeth o'r berthynas rhwng ffurf a swyddogaeth. |
| Gall dysgwyr sy'n ymgymryd â'r llwybr hwn ddilyn y meysydd astudio canlynol:<br><br>• Dylunio pensaernïol<br>• Cerameg<br>• Dylunio ar gyfer theatr, ffilm a theledu<br>• Dylunio amgylcheddol/tirlun<br>• Dylunio ar gyfer arddangosfeydd<br>• Dylunio mewnol<br>• Gemwaith ac addurniadau corff<br>• Dylunio cynnyrch<br>• Cerflunwaith.<br><br>Ni chyfyngir y gwaith i un maes astudio.<br><br>Rhaid i ddysgwyr sy'n ymgymryd â'r llwybr hwn archwilio ffynonellau beirniadol a chyd-destunol perthnasol ac ymarferol, megis gwaith dylunwyr a gwneuthurwyr tri dimensiwn hanesyddol a chyfoes, yn ogystal â gwahanol bwrpasau, bwriadau a swyddogaethau dylunio tri dimensiwn fel y bo'n briodol i'w deilliannau eu hunain. Dylent ddangos y gallu i weithio'n greadigol gyda phrosesau a thechnegau sy'n briodol i'r maes/meysydd astudio o'u dewis. |

© WJEC CBAC Ltd 2024

| **Ffotograffiaeth** |
| --- |
| Mae'r llwybr ffotograffiaeth yn ymwneud ag agweddau technegol gweithredu camera yn ogystal â datblygu iaith weledol i gyfleu syniadau ac emosiynau trwy ddelweddaeth. Diffinnir ffotograffiaeth fel yr arfer o greu delweddau statig neu symudol trwy gofnodi golau â defnyddiau sensitif i olau megis ffilm ffotograffig neu'n ddigidol trwy ddefnyddio synhwyrydd delweddau. Mae'n cynnwys ffotograffiaeth lonydd a chyfryngau lens-seiliedig eraill. |
| Gall dysgwyr sy'n ymgymryd â'r llwybr hwn ddilyn y meysydd astudio canlynol:<br><br>• Ffotograffiaeth ystafell dywyll<br>• Ffotograffiaeth ddogfennol<br>• Delweddaeth arbrofol<br>• Ffotograffiaeth ffasiwn<br>• Gosodwaith<br>• Delwedd symudol: ffilm, fideo ac animeiddio<br>• Ffotonewyddiaduraeth<br>• Ffotograffiaeth stiwdio.<br><br>Ni chyfyngir y gwaith i un maes astudio.<br><br>Rhaid i ddysgwyr sy'n ymgymryd â'r teitl hwn archwilio ffynonellau beirniadol a chyd-destunol perthnasol ac ymarferol, megis gwaith ffotograffwyr hanesyddol a chyfoes a gwahanol bwrpasau, bwriadau a swyddogaethau ffotograffiaeth fel y bo'n briodol i'w deilliannau eu hunain. Dylent ddangos y gallu i weithio'n greadigol gyda phrosesau a thechnegau sy'n briodol i'r maes/meysydd astudio o'u dewis. |

© WJEC CBAC Ltd 2024

## 1.3 Dysgu blaenorol a dilyniant

Er nad oes gofynion dysgu blaenorol penodol, lluniwyd y cymhwyster yn bennaf ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed, gan adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol a ddatblygwyd drwy'r hyn a ddysgwyd ganddynt rhwng 3 ac 14 oed.

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudiaeth ôl-16, gan baratoi dysgwyr ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. Mae'r cymhwyster yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Celf a Dylunio naill ai ar lefel UG neu ar lefel Safon Uwch. Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn cynnig cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

## 1.4 Oriau dysgu dan arweiniad

Lluniwyd y TGAU Celf a Dylunio i'w gyflwyno dros gyfnod o 120 – 140 o oriau dysgu dan arweiniad. Cafodd y cymhwyster ei lunio'n bennaf fel rhaglen 2 flynedd i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11.

## 1.5 Defnyddio iaith

Wrth i'n dealltwriaeth o amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ddatblygu, mae'n rhaid i'n hiaith ddatblygu hefyd. Drwy ddiweddaru terminoleg, rydym yn adlewyrchu hunaniaethau unigol yn well ac yn meithrin parch a chywirdeb. Dylai'r iaith a ddefnyddir fod mor benodol â phosibl. Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod modd addasu gan fod iaith gynhwysol yn hybu urddas a thegwch. Gan gydnabod y bydd iaith yn parhau i ddatblygu, byddwn yn parhau i fod yn agored i ddiwygiadau pellach i sicrhau y cynrychiolir ac y cefnogir pob unigolyn yn gywir. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser.

## 1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i rywedd a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwyr gael mynediad a llwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd warchodedig benodol.

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y nodweddion gwarchodedig yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Gwneir trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr cymwys fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd ac er mwyn eu galluogi i ddangos eu gwybodaeth a'u sgiliau heb newid gofynion yr asesiad.

Mae gwybodaeth am drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol i'w cael yn y ddogfen ganlynol gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyd-gyngor Cymwysterau (www.jcq.org.uk).

Byddwn yn dilyn egwyddorion y ddogfen hon ac felly, o ganlyniad i ddarpariaeth addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr sydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

© WJEC CBAC Ltd 2024

# 2 CYNNWYS Y PWNC

Rhaid cyflwyno cynnwys y pwnc yn 1.1 ac 1.2 drwy'r llwybr a ddewiswyd mewn cyd-destunau sy'n:

- datblygu **dysgwyr uchelgeisiol a chreadigol** sy'n ymwybodol o bwysigrwydd cymryd risgiau creadigol i:
  - gefnogi eu meddwl creadigol
  - annog archwilio defnyddiau a thechnegau
  - dadansoddi eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill.

- datblygu rôl y dysgwr fel dinasyddion **moesegol a gwybodus** drwy gydol y cymhwyster. Dylai dysgwyr:
  - archwilio amrywiaeth mewn celf, crefft a dylunio o Gymru ac yn fyd-eang, gan gynnwys gwaith pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig
  - datblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogi traddodiadau, hanes a diwylliant unigryw ac amrywiol yr arferion artistig hyn
  - ystyried sut mae'r gwaith hwn yn cael ei gyflwyno mewn gwahanol ffyrdd i gyfathrebu â'r gynulleidfa arfaethedig
  - ystyried effaith y defnyddiau a'r arferion y maent yn eu defnyddio
  - cael eu hannog i ddefnyddio defnyddiau cynaliadwy a mabwysiadu arferion ecogyfeillgar yn eu prosesau creadigol
  - deall pwysigrwydd lleihau effaith amgylcheddol eu gwaith.

## Sut i ddarllen yr ymhelaethiad

Mae'r ymhelaethiad isod yn defnyddio'r ddau fonyn canlynol:

- Mae 'Dylai dysgwyr wybod a deall' yn cael ei ddefnyddio pan fydd gofyn i ddysgwyr ddangos eu gwybodaeth a dealltwriaeth mewn cyd-destunau cyfarwydd ac anghyfarwydd.
- Mae 'Dylai dysgwyr allu' yn cael ei ddefnyddio pan fydd angen i ddysgwyr gymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth at sefyllfaoedd neu ddangos eu bod yn cymhwyso technegau a sgiliau ymarferol.

Rhaid cyflwyno cynnwys y pwnc drwy'r llwybr a ddewiswyd.

| **1.1** | |
|---|---|
| Dylai dysgwyr wybod a deall: | |
| 1.1.1 | y broses greadigol drwy archwilio syniadau ac arbrofi gydag amrywiaeth o gyfryngau, technegau, offer, technolegau digidol, a phrosesau sy'n briodol i'w bwriadau unigol eu hunain |
| 1.1.2 | sut mae celf, crefft a dylunio o amrywiaeth o ddiwylliannau, cymdeithasau a chyfnodau:<br>• yn adlewyrchu cyd-destun ei greu<br>• yn dylanwadu ar ddiwylliannau a chymdeithasau presennol<br>• yn dylanwadu ar ymatebion dysgwyr. |
| 1.1.3 | sut mae ystyr yn cael ei gyfleu drwy ystod eang o waith creadigol a sut mae'n cael dylanwad ar eu bwriadau creadigol a'u gwaith nhw eu hunain |
| 1.1.4 | sut i ddadansoddi'n feirniadol a myfyrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill. |

© WJEC CBAC Ltd 2024

| **1.2** |
|---|
| Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>1.2.1 datblygu ac ymchwilio, gan ddefnyddio sgiliau archwilio a dadansoddi i gefnogi chwilfrydedd ymchwiliol parhaus<br>1.2.2 datblygu a mireinio sgiliau ymarferol a thechnegol, gan gyfathrebu bwriad artistig gyda phwrpas<br>1.2.3 defnyddio ac addasu sgiliau lluniadu ar gyfer gwahanol anghenion a phwrpasau<br>1.2.4 datblygu ymatebion creadigol personol dychmygus a greddfol i ysgogiadau<br>1.2.5 defnyddio meddwl creadigol wrth ddefnyddio offer, defnyddiau a thechnegau i greu, mireinio a chyflawni canlyniadau sy'n arddangos pwrpas a bwriad clir a dangos dealltwriaeth o iaith weledol<br>1.2.6 cymhwyso meddwl beirniadol i amrywiaeth eang o gelf, crefft a dylunio o gyd-destunau amrywiol, gan gynnwys ffynonellau y mae pobl eraill wedi dylanwadu arnynt, o wahanol leoedd a chyfnodau gwahanol<br>1.2.7 ystyried eu bwriadau creadigol eu hunain a sut i'w cyfleu i gynulleidfa drwy gyflwyno, arddangos a/neu rannu eu gwaith creadigol eu hunain yn effeithiol ac yn briodol<br>1.2.8 mireinio, gwerthuso a myfyrio ar eu gwaith eu hunain<br>1.2.9 cydnabod sut y gall cynulleidfa ddehongli gwaith ac ymateb iddo<br>1.2.10 myfyrio ar a dadansoddi eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill yn feirniadol er mwyn:<br>• llywio datblygiad syniadau<br>• gwerthuso effeithiolrwydd prosesau a chanlyniadau gwaith creadigol<br>• ystyried a yw'n trosglwyddo'r ystyr a'r pwrpas a fwriadwyd yn effeithiol<br>• adolygu sut y gall cynulleidfa ddehongli gwaith ac ymateb iddo. |

© WJEC CBAC Ltd 2024

## Uned 1

**Portffolio**

Math o asesiad: Asesiad Di-arholiad
60% o'r cymhwyster
120 marc

**Trosolwg o'r uned**

Mae'r uned hon wedi'i llunio i alluogi dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau o fewn y broses greadigol. Dylid annog dysgwyr i wneud darganfyddiadau personol a chymryd risgiau creadigol trwy eu hymchwiliadau eu hunain.

Bydd yn ofynnol i ddysgwyr gynhyrchu portffolio:

- drwy broject parhaus sy'n dangos datblygiad, mireinio, myfyrio a chyflwyniad
- sydd wedi'i osod yn fewnol, mewn ymgynghoriad â'r athro o fannau cychwyn personol a/neu a roddir
- yn seiliedig ar thema, cysyniad neu friff dylunio penodol.

© WJEC CBAC Ltd 2024

## Uned 2

**Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol**

Math o asesiad: Asesiad Di-arholiad
40% o'r cymhwyster
80 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw cynnal ymchwil gyd-destunol ac ymarferol ac astudiaethau cefnogi yn ystod cyfnod paratoadol. Bydd hyn yn llywio ymateb y dysgwr yn ystod cyfnod o 10 awr o waith dwys a manwl.


Mae'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol yn cynnwys 5 syniad mawr trosfwaol. Rhaid i ddysgwyr ddewis un syniad mawr yn unig a defnyddio unrhyw un o'r ysgogiadau o'r syniad mawr i lywio eu gwaith.

Bydd yn ofynnol i ddysgwyr gynhyrchu ymateb:
- gan ddangos datblygiad, mireinio, myfyrio a chyflwyniad
- sy'n seiliedig ar un o'r syniadau mawr.

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn cymhwyso'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd yn ystod Uned 1 mewn ymateb i'r syniadau mawr a osodwyd gan CBAC.

Bydd yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol yn cael ei ryddhau i'r canolfannau cyn diwedd tymor yr hydref ym mlwyddyn olaf y cwrs er mwyn caniatáu amser i gynllunio a pharatoi deunyddiau cefnogi. Dylid rhyddhau'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol i ddysgwyr yn ystod tymor y gwanwyn ym mlwyddyn olaf eu hastudiaeth.

Enghreifftiau o Syniadau Mawr:




Mae'r rhain yn enghreifftiau o syniadau mawr y gellid eu cynnwys yn yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol.

© WJEC CBAC Ltd 2024

## Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu

Mae'r cymhwyster TGAU Celf a Dylunio yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau canlynol (ni chaiff y profiadau eu hasesu'n uniongyrchol):

- profi amrywiaeth o weithiau proffesiynol drwy weithdai ac ymweld ag orielau/arddangosfeydd/amgueddfeydd naill ai yn y cnawd neu ar sgrin
- meithrin hyder wrth roi a derbyn adborth, gan hybu meddwl annibynnol, gwreiddioldeb a gwydnwch creadigol
- cyfleoedd i ymchwilio, cymryd risgiau a goresgyn heriau creadigol
- magu ymwybyddiaeth o’r gwahanol yrfaoedd, rolau ac arferion gwaith unigol sy’n gysylltiedig â chynhyrchu celf, crefft a dyluniadau yn y diwydiannau creadigol a diwylliannol
- defnyddio technoleg ddigidol fel sy'n briodol i'r llwybr a ddewiswyd
- magu ymwybyddiaeth sylfaenol o ystyriaethau moesegol a chyfreithiol fel sy'n briodol.

Bydd gwybodaeth bellach i’w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd a roddir gan y cymhwyster hwn i athrawon/canolfannau integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno’r cymhwyster.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

© WJEC CBAC Ltd 2024

# 3 ASESU

## 3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Bydd y Pecyn Asesu yn cynnwys yr holl wybodaeth fanwl sy'n ymwneud ag asesu.

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr:

**AA1**
Datblygu syniadau a dangos dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol o ffynonellau

**AA2**
Mireinio gwaith trwy archwilio syniadau, gan ddewis ac arbrofi gyda chyfryngau, technegau, offer, technolegau digidol a phrosesau priodol

**AA3**
Myfyrio ar eu gwaith eu hunain, a chofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i fwriadau wrth i'r gwaith fynd rhagddo

**AA4**
Cyflwyno ymateb personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau ac yn dangos dealltwriaeth o iaith weledol

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoliad pob amcan asesu ar gyfer pob uned ac ar gyfer y cymhwyster cyfan.

| | **AA1** | **AA2** | **AA3** | **AA4** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Uned 1 | 15% | 15% | 15% | 15% | 60% |
| Uned 2 | 10% | 10% | 10% | 10% | 40% |
| Pwysoliad cyffredinol | **25%** | **25%** | **25%** | **25%** | **100%** |

© WJEC CBAC Ltd 2024

## 3.2 Trosolwg o'r trefniadau ar gyfer asesu di-arholiad

Y fframwaith isod yw'r amserlen a argymhellir i ganolfannau.

| Bl10 Tymor 1 | Bl10 Tymor 2 | Bl10 Tymor 3 | Bl11 Tymor 1 | Bl11 Tymor 2 | Bl11 Tymor 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| • Meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau drwy weithdai | • Meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau drwy weithdai<br>• Gallwch ddechrau gweithio ar waith portffolio | • Gwaith portffolio | • Gwaith portffolio<br>• Rhyddhau Aseiniad wedi'i osod yn Allanol i athrawon yn unig, ar gyfer cynllunio a pharatoi (1 Rhagfyr) | • Cyflwyno'r portffolio cyn rhyddhau'r Aseiniad wedi'i osod yn Allanol i ddysgwyr<br>• Rhyddhau Aseiniad wedi'i osod yn allanol i ddysgwyr gychwyn Rhan 1 - cyfnod paratoi | • Aseiniad wedi'i osod yn Allanol Rhan 2 - cyfnod o waith dwys a manwl |

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar gynnwys, ffurf na maint y gwaith na faint o dystiolaeth i'w dethol a'i chyflwyno, er y dylai'r pwyslais fod ar yr ansawdd yn hytrach na'r maint.

Gellir cyflwyno unedau mewn unrhyw fformat(au) addas, er enghraifft:
- taflenni arddangos
- dyddiaduron gweledol
- llyfr(au) braslunio/llyfr(au) gwaith
- portffolio digidol
- arddangosfeydd wedi'u mowntio
- gosodiadau
- cyflwyniad digidol.

**Uned 1: Trosolwg**

Dylai dysgwyr ddechrau datblygu eu portffolio ar ôl iddynt gael eu cyflwyno i'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a amlinellir yng nghynnwys y pwnc. Dylid darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu ac ehangu dealltwriaeth a gwybodaeth ymarferol trwy weithdai yn y llwybr a ddewiswyd.

Gall athrawon adolygu gwaith ymgeiswyr a rhoi cyngor ar lafar ac yn ysgrifenedig ar lefel gyffredinol er mwyn sicrhau canlyniad gweithredol.

Rhaid i'r ganolfan sicrhau mai gwaith y dysgwyr unigol eu hunain yw'r gwaith sy'n cael ei gyflwyno i'w asesu.

Gall dysgwyr gael mynediad at adnoddau a/nodiadau paratoadol.

Argymhellir y dylai gwaith portffolio ddechrau yn ystod tymor y gwanwyn neu'r haf yn y flwyddyn gyntaf o astudio. Rhaid cwblhau'r portffolio cyn cyflwyno Uned 2 (Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol) i ddysgwyr yn nhymor y gwanwyn yn y flwyddyn astudio olaf. Dylai gwaith ymgeiswyr gael ei storio'n ddiogel ar ôl ei gyflwyno ac yn ystod y cyfnodau marcio, cymedroli ac adolygu. Ni ddylid rhyddhau gwaith ymgeiswyr nes bod y cyfnod Adolygu Marcio a Chymedroli wedi dod i ben.

© WJEC CBAC Ltd 2024

**Uned 2: Trosolwg**

Bydd yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol yn cael ei ryddhau ar wefan Porth CBAC ar 1 Rhagfyr ym mlwyddyn olaf pob cyfres. Mae hyn ar gyfer athrawon yn unig, er mwyn iddynt baratoi adnoddau ar gyfer dysgwyr.

Dylid cyflwyno'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol i ddysgwyr ar ôl cyflwyno'r portffolio, yn ystod ail dymor y flwyddyn astudio derfynol.

Mae'n ofynnol i ddysgwyr ddewis un o'r syniadau mawr a'i ddatblygu ar ffurf:
- ymateb personol
- briff dylunio penodol
- neu ddull addas arall.

RHAN 1: cyfnod astudio paratoadol
Bydd dysgwyr yn datblygu eu hymateb dros gyfnod astudio paratoadol. Mater i'r ganolfan yw penderfynu faint o amser i'w ddyrannu i hyn.

Yn ystod y cyfnod astudio paratoadol bydd ymchwilio, datblygu a mireinio ymatebion yn digwydd. Dylent fod ar ffurf gwaith paratoadol/astudiaethau cefnogi ymarferol, beirniadol a chyd-destunol ynghyd â chyfnod o fyfyrio ar y broses. Dim ond gwaith a gynhyrchwyd yn ystod y cyfnod paratoi y gellir ei ddefnyddio a'i symud ymlaen i Ran 2.

Mae gan Ran 1 Uned 2 yr un rheolaethau ag Uned 1 fel y nodir yn y Pecyn Asesu.

RHAN 2: cyfnod o waith dwys a manwl
Dylid gwneud hyn dan oruchwyliaeth uniongyrchol.

Ni all athrawon roi unrhyw gyngor nac adborth ar waith dysgwyr.

Gall dysgwyr gael mynediad at adnoddau a/nodiadau paratoadol a gynhyrchwyd yn Rhan 1 yn unig.

Mae gan ddysgwyr uchafswm o 10 awr i gynhyrchu eu canlyniad, a rhaid iddynt ddechrau gydag isafswm sesiwn 2 awr.

Cyflwyno marciau

Mae'n ofynnol i ganolfannau gyflwyno marciau ar gyfer y ddwy uned a aseswyd yn fewnol ar-lein yn ystod tymor yr haf yn y flwyddyn astudio olaf i baratoi ar gyfer cymedroli.

Pan fydd marciau wedi'u cyflwyno i CBAC, bydd y system ar-lein yn cymhwyso'r sampl fformiwla yn seiliedig ar y drefn restrol gyffredinol ar gyfer y cofrestriad cyfan ac yn nodi'n syth sampl yr ymgeiswyr y mae eu gwaith yn cael ei ddewis i'w gymedroli.

© WJEC CBAC Ltd 2024

# 4 CAMYMDDWYN

Cyn dechrau'r cwrs, bydd yr athro'n gyfrifol am roi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Ni ddylai ymgeiswyr wneud unrhyw beth annheg o gwbl wrth baratoi gwaith ar gyfer TGAU Celf a Dylunio.

Ceir gwybodaeth am gamymddwyn yn ein Canllaw i atal, adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn.

Rhaid rhoi gwybod i CBAC ar unwaith am bob achos o gamymddwyn posibl neu gamymddwyn gwirioneddol (camymddwyn@cbac.co.uk). Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y byddant yn cael eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cynghorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y JCQ Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau.

© WJEC CBAC Ltd 2024

# 5 GWYBODAETH DECHNEGOL

## 5.1 Cofrestru

Cymhwyster llinol yw hwn y mae'n rhaid sefyll yr holl asesiadau ar ei gyfer ar ddiwedd y cwrs.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfres yr haf tan ddiwedd oes y fanyleb hon. Bydd y cyfle asesu cyntaf yn haf 2027.

Gall ymgeiswyr sefyll cymhwyster fwy nag unwaith.

Gellir trosglwyddo marciau asesiad di-arholiad dros oes y fanyleb. Os bydd ymgeisydd yn ailsefyll uned (yn hytrach na throsglwyddo marc yr asesiad di-arholiad blaenorol), y marc newydd fydd yn cyfrif tuag at y radd gyffredinol, hyd yn oed os yw'r marc hwnnw'n is na'r cynnig blaenorol (oni bai bod y marc yn absennol).

Nodir y cod cofrestru isod.

| | **Cod cofrestru** | |
|---|---|---|
| | **Cyfrwng Saesneg** | **Cyfrwng Cymraeg** |
| **CBAC TGAU Celf a Dylunio** (Celf, creft a dylunio) | 3610QS | 3610CS |
| **CBAC TGAU Celf a Dylunio** (Celfyddyd gain) | 3611QS | 3611CS |
| **CBAC TGAU Celf a Dylunio** (Dylunio tecstiliau) | 3612QS | 3612CS |
| **CBAC TGAU Celf a Dylunio** (Cyfathrebu graffig) | 3613QS | 3613CS |
| **CBAC TGAU Celf a Dylunio** (Dylunio tri dimensiwn) | 3614QS | 3614CS |
| **CBAC TGAU Celf a Dylunio** (Ffotograffiaeth) | 3615QS | 3615CS |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau yn nodi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

## 5.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Mae cymwysterau TGAU yn cael eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt o A*–G, ac A* yw'r radd uchaf. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

© WJEC CBAC Ltd 2024

# Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 |
|---|---|---|
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | ✓ | ✓ |
| Agwedd Cynaliadwyedd ar Gyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | ✓ | ✓ |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | ✓ | ✓ |
| Hawliau Dynol | ✓ | ✓ |
| Amrywiaeth | ✓ | ✓ |
| Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith | ✓ | ✓ |
| Gwrando | ✓ | ✓ |
| Darllen | ✓ | ✓ |
| Siarad | ✓ | ✓ |
| Ysgrifennu | ✓ | ✓ |
| Datblygu hyfedredd mathemategol | Yn ddibynnol ar y llwybr | Yn ddibynnol ar y llwybr |
| Mae deall y system rifau yn ein helpu ni i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | Yn ddibynnol ar y llwybr | Yn ddibynnol ar y llwybr |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu i ddeall siapiau, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | Yn ddibynnol ar y llwybr | Yn ddibynnol ar y llwybr |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu i wneud casgliadau a phenderfyniadau ar sail gwybodaeth | Yn ddibynnol ar y llwybr | Yn ddibynnol ar y llwybr |
| Dinasyddiaeth | ✓ | ✓ |
| Rhyngweithio a Chydweithio | ✓ | ✓ |
| Cynhyrchu | ✓ | ✓ |
| Data a Meddwl Cyfrifiannol | Yn ddibynnol ar y llwybr | Yn ddibynnol ar y llwybr |

© WJEC CBAC Ltd 2024

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 |
|---|---|---|
| Creadigrwydd ac Arloesi | ✓ | ✓ |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | ✓ | ✓ |
| Cynllunio a Threfnu | ✓ | ✓ |
| Effeithiolrwydd Personol | ✓ | ✓ |

© WJEC CBAC Ltd 2024